Disgrifiad Swydd
Arweinydd Caffael Bwyd a Logisteg

Yn adrodd i'r: Pennaeth Gweithrediadau
Yn gyfrifol am: Gwirfoddolwyr Perthnasol
Oriau: Amser llawn (37.5 awr)
Contract: Parhaol
Telerau: 3 diwrnod gan gynnwys gwyliau banc, pro rata. Ar ôl dwy flynedd o wasanaeth, bydd hyn yn cynyddu 1 diwrnod y flwyddyn hyd at uchafswm o 5 diwrnod (pro rata). Bydd 1 diwrnod o absenoldeb gwirfoddol y flwyddyn, hefyd ar gael (pro rata).
Cyflog Dechreuol: £27,318-£29,500

FareShare Cymru

Mae FareShare Cymru yn elusen annibynnol ac yn rhan o rwydwaith cenedlaethol o elusennau ailddosbarthu bwyd dros ben.

Rydym yn troi problem amgylcheddol yn ddatrysiad cymdeithasol. Rydym yn cyrchu bwyd dros ben o ansawdd da gan fanwerthwyr, gweithgynhyrchwyr a chyflenwyr bwyd, gan ymgysylltu gwirfoddolwyr i ailddosbarthu'r bwyd dros ben i elusennau lleol a grwpiau cymunedol sy'n darparu prydau bwyd er mwyn cefnogi eu cymunedau a chynyddu effaith gymdeithasol bwyd dros ben.

Mae hwn yn gyfle cyffrous i fod yn allweddol wrth gyflawni'r cam nesaf yn ein datblygiad.

Amgylchiadau

Gweithio hybrid – bydd gofyn i ddeiliad y swydd weithio o'n warws yng Nghaerdydd ac o'u cartref. Gall y rôl olygu bod angen i ddeiliad y swydd deithio ledled Cymru a mynychu digwyddiadau y tu allan i oriau gwaith arferol.

Prif Ddiben y Rôl

Mae'r Arweinydd Cyrchu Bwyd a Logisteg yn gyfrifol am arwain a datblygu gweithgareddau cyrchu bwyd, cyflenwi a logisteg FareShare Cymru, gan sicrhau llif cyson, diogel ac effeithlon o fwyd dros ben i elusennau a grwpiau cymunedol ledled Cymru.

Bydd deiliad y swydd yn gweithio'n agos gyda Felix, partneriaid yn y diwydiant bwyd a thimau mewnol, gan reoli cydberthnasau cyflenwi bwyd, goruchwylio dyraniad bwyd a chynllunio logisteg, datblygu cyfleoedd cyrchu bwyd lleol, a gyrru prosiectau arloesi sy'n cynyddu maint a gwerth y bwyd sy'n cael ei ailddosbarthu, yn eu blaenau.

Mae'r rôl yn darparu arbenigedd ar draws cyrchu bwyd, trafnidiaeth a logisteg, gan sicrhau stiwardiaeth gref gan gyflenwyr, rheoli stoc a dosbarthu effeithiol, a chyflawni amcanion strategol FareShare Cymru.

Cyfrifoldebau'r Swydd

Ymgysylltu â Chyflenwyr a Rheoli Cydberthnasau

- Nodi a datblygu partneriaid bwyd newydd ledled Cymru, gan feithrin cydberthnasau cryf â manwerthwyr, gweithgynhyrchwyr, cynhyrchwyr a chyfanwerthwyr.
- Gweithredu fel y prif bwynt cyswllt ar gyfer partneriaid bwyd lleol a rhanbarthol, gan ddarparu gwasanaeth cwsmeriaid a rheoli cyfrifon rhagorol.
- Cryfhau'r cydberthnasau â'r cyflenwyr presennol trwy ymgysylltu rheolaidd, adrodd ar effaith a datblygu partneriaethau.
- Gweithio ar y cyd â Felix a Phartneriaid Rhwydwaith i wneud y mwyaf o gyfleoedd bwyd a rhannu arfer orau.
- Hyrwyddo gwaith FareShare Cymru trwy sicrhau cynrychiolaeth mewn cyfarfodydd, digwyddiadau rhwydweithio a gweithgareddau ymgysylltu â'r sector.
- Gweithio gyda'r Arweinydd Marchnata a Chyfathrebu i gynhyrchu astudiaethau achos ac adroddiadau effaith sy'n dangos gwerth ailddosbarthu bwyd yn gymdeithasol ac yn amgylcheddol.

Rheoli a Dyrannu Cyflenwadau Bwyd

- Arwain y gwaith o gydlynu a rheoli cynigion bwyd a gynhyrchir yng Nghymru.
- Monitro symiau bwyd, categorïau, ansawdd bwyd a thueddiadau cyflenwi, gan nodi cyfleoedd a risgiau.
- Gweithio'n agos gyda thimau Gweithrediadau i reoli lefelau stoc, capasiti warws a symudiad bwyd.
- Datblygu cynlluniau rhagweld a chyrchu bwyd yn seiliedig ar dueddiadau a data perfformiad.
- Sicrhau bod yr holl fwyd sy'n dod i mewn yn cydymffurfio, yn ymarferol ac yn cyd-fynd â chapasiti sefydliadol.
- Cefnogi cynllunio ar gyfer ailddosbarthu i sicrhau bod bwyd dros ben yn cyrraedd elusennau a grwpiau cymunedol yn effeithlon ac yn effeithiol.
- Sicrhau bod ailddosbarthu bwyd yn cael ei wneud yn unol â thargedau strategol a thargedau prosiect, gan gynnwys rheoli cronfa Bwyd Dros Ben ag Amcan Cymru a ariennir gan Lywodraeth Cymru.

Datblygu ac Arloesi Bwyd

- Arwain y gwaith o ddatblygu cyfleoedd newydd i ddod o hyd i fwyd, a mentrau sy'n ymwneud â bwyd dros ben ledled Cymru.
- Ehangu a datblygu prosiectau, megis lloffa a rhaglenni arloesi bwyd eraill.
- Gweithio gyda chydweithwyr i nodi a gweithredu dulliau newydd sy'n cynyddu symiau'r bwyd ac yn lleihau gwastraff.
- Cynnal gwaith ymchwil a gwaith asesu dichonoldeb i gefnogi prosiectau strategol ar gyfer datblygu bwyd.

Rheoli Logisteg

- Cydlynu datrysiadau cludiant ar gyfer cyflenwadau bwyd rhanbarthol, gan sicrhau bod casgliadau'n cael eu gwneud yn amserol ac mewn modd cost-effeithiol.
- Goruchwylio amserlenni logisteg ar gyfer caffael bwyd yn rhanbarthol.
- Cysylltu â Felix pan fydd swm y bwyd neu ofynion logisteg yn golygu bod angen cefnogaeth gan rwydwaith ehangach.
- Posibilrwydd o fod yn rheolwr llinell ar staff perthnasol.

Monitro, Adrodd a Dadansoddi

- Cynnal cofnodion ffynonellau bwyd, cyflenwyr a stoc, yn gywir.
- Cynhyrchu adroddiadau'n rheolaidd, gan ddefnyddio systemau sefydliadol sy'n cynnwys Power Bi, Salesforce a Microsoft Dynamics ar gyfer tîm FareShare Cymru a Phartneriaid Rhwydwaith.
- Dadansoddi tueddiadau yn y cyflenwad bwyd er mwyn rhagweld cyfleoedd a heriau yn y dyfodol.
- Monitro perfformiad yn erbyn targedau allweddol ar gyfer cyrchu ac ailddosbarthu bwyd.

- Arwain ar ofynion gwerthuso ac adrodd ar gyfer prosiectau a chyllidwyr sy'n gysylltiedig â bwyd, gan gynnwys Cronfa Bwyd Dros Ben ag Amcan Cymru a ariennir gan Lywodraeth Cymru.

Dyletswyddau eraill

- Cyflawni unrhyw ddyletswyddau eraill allai fod yn angenrheidiol er mwyn cyflawni gofynion y swydd a/neu sicrhau gweithrediad FareShare Cymru.

Manyleb y person

Profiad:

- Profiad ym meysydd bwyd, logisteg, warysau, nwyddau defnyddwyr sy'n symud yn gyflym neu amgylchedd gweithredol cymharol.
- Profiad profedig o adeiladu a rheoli cydberthnasau â chyflenwyr, cwsmeriaid neu bartneriaid, gan gynnwys busnesau bwyd a diod, yn ddelfrydol.
- Profiad o ddadansoddi data, monitro perfformiad a chynhyrchu adroddiadau.
- Profiad o weithio ar draws timau i gyflawni amcanion gweithredol a phrosiectau.
- Llwyddiant blaenorol o gyrraedd targedau a chyflawni canlyniadau mewn amgylchedd sy'n symud yn gyflym.
- Profiad o wneud cyflwyniadau a chynrychioli sefydliad yn allanol.
- Profiad o weithio'n rhan o dîm i gefnogi a chyflwyno prosiectau yn unol â dangosyddion amser, cost ac ansawdd y cytunwyd arnynt.
- Profiad o'r Trydydd sector yng Nghymru a gweithio gyda gwirfoddolwyr (dymunol)

Sgiliau, gwybodaeth a galluoedd:

- Sgiliau rheoli cydberthnasau, dylanwadu a negodi rhagorol.
- Gallu dadansoddi data a defnyddio mewnwelediadau i gefnogi gwneud penderfyniadau.
- Sgiliau datrys problemau cryf a dull ymarferol o ymdrin â heriau gweithredol.
- Sgiliau trefnu cryf a'r gallu i reoli blaenoriaethau cystadleuol.
- Sgiliau cyfathrebu rhagorol, yn ysgrifenedig ac ar lafar.
- Gallu i ysgogi a datblygu staff, gwirfoddolwyr a phartneriaid.
- Sgiliau TG cymwys, gan gynnwys Microsoft Office a systemau adrodd.
- Gwybodaeth am gadwyni cyflenwi bwyd a phrosesau gweithredol.
- Gwybodaeth am ddiogelwch bwyd, egwyddorion Dadansoddi Peryglon a Phwynt Rheoli Critigol (HACCP) a gofynion cydymffurfio (dymunol).
- Sgiliau iaith Gymraeg (dymunol).

Gwerthoedd ac ymddygiadau:

- Dealltwriaeth o genhadaeth a strategaeth FareShare Cymru, a bod â chydymdeimlad â hwy
- Hyblygrwydd o ran dull gweithredu a'r gallu i weithio fel rhan o dîm
- Lefel uchel o gymhelliant ac ymrwymiad, a'r gallu i ddefnyddio menter bersonol
- Parodrwydd i weithio y tu allan i'r swyddfa, pan fo angen
- Parodrwydd a'r gallu i deithio o amgylch Cymru, ac o bosibl y DU, ar adegau
- Ymrwymiad i gyfle cyfartal.